PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 46 Tachwedd 13, 2025 50c.

## Cyngor Cyffredinol Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd, Chiang Mai, Hydref 2025



Braint i'r Parchg Beti-Wyn James a minnau oedd cynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghyngor Cyffredinol Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd (*WCRC*) yn Chiang Mai, Gwlad Thai yn ystod mis Hydref. Roedd y digwyddiad yn gyfle unigryw i fyfyrio ar waith y Cymundeb, trafod materion byd-eang, a dathlu 150 mlynedd o dystiolaeth ffydd. Yn ystod y naw diwrnod, buom yn rhan o weithdai, astudiaethau Beiblaidd, trafodaethau polisi, ac adegau o addoli llawn llawenydd.

Sefydlwyd y Cymundeb yn 2010 trwy uno dau gorff eciwmenaidd, Cynghrair Eglwysi Diwygiedig y Byd a'r Cyngor Eciwmenaidd Diwygiedig. Heddiw, mae'r Cymundeb yn cynrychioli dros 100 miliwn o Gristnogion mewn 230 o eglwysi ac undebau eglwysig ar draws 108 o wledydd. Mae'r Cymundeb wedi'i wreiddio yn nhraddodiad Diwygiad Protestannaidd yr 16eg ganrif ac ymysg ei aelodaeth ceir eglwysi Cynulleidfaol, Presbyteraidd, Diwygiedig ac Unedig. Cenhadaeth y Cymundeb yw hyrwyddo undod Cristnogol a chyfiawnder cymdeithasol, gan fynd i'r afael â heriau byd-eang fel newid hinsawdd, hawliau dynol, anghydraddoldeb economaidd, a chynaliadwyedd. Mae'r Cymundeb yn pwysleisio myfyrdod diwinyddol a gweithredu proffwydol, gan olrhain ei wreiddiau i 1875.




### Anerchiad y Llywydd

Thema'r Cyngor oedd 'Dyfalbarhewch yn eich Tystiolaeth'. Yn wyneb argyfyngau byd-eang galwodd y Llywydd, y Parchedig Najla Kassab, ar yr eglwysi i aros yn ddiysgog a gobeithiol. Cyfeiriodd at y term Beiblaidd Groeg hupomonē, sy'n golygu dygnwch gweithredol, gan annog eglwysi i barhau i sefyll dros gyfiawnder. Myfyriodd y Llywydd ar 150 mlynedd o wydnwch y Cymundeb a'i ragflaenwyr, gan nodi sut y goroesodd heriau fel pandemigau, argyfyngau ariannol, a newidiadau mewn arweinyddiaeth. Amlygodd Gyffes Accra fel dogfen arweiniol ar gyfer wynebu anghyfiawnder economaidd ac ecolegol, a chysylltodd argyfwng Gaza â galwad am dystiolaeth broffwydol. Defnyddiodd y ddelwedd Japaneaidd kintsugi – atgyweirio crochenwaith wedi ei dorri ag aur – i ddangos sut y gall gwendidau'r eglwys droi'n harddwch trwy ras Duw.



### Gweithdai – Themâu a Phrofiadau

Yn ystod y deuddydd cyntaf, cafodd Beti-Wyn a minnau gyfle i fynychu nifer o weithdai amrywiol a oedd yn mynd i'r afael â materion byd-eang trwy lens ffydd. Rhyngom cawsom gyfle i ddysgu am y pynciau canlynol:

- **Cyfiawnder economaidd ac ecolegol** – trafodwyd anghydraddoldeb economaidd a chynaliadwyedd, gan eiriol dros dreth deg a chanslo dyledion trwy fframwaith Pensaernïaeth Ariannol ac Economaidd Ryngwladol Newydd (NIFEA).
- **Myanmar** – agoriad llygad i'r gwrthdaro hirhoedlog a'r caledi economaidd sy'n wynebu'r wlad.
- **Cynhwysiant anabledd** – galw ar eglwysi i symud y tu hwnt i dosturi, gan gofleidio cyfiawnder, hygyrchedd, a diwinyddiaeth gadarnhaol.
- **Ffydd fel arf yr ymerodraeth** – dadansoddi sut mae crefydd wedi cael ei defnyddio i gyfiawnhau awdurdodaeth, cyfalafiaeth, a gormes cymdeithasol.
- **Pobl gynhenid** – gwrando ar brofiadau brodyr a chwiorydd o'r Môr Tawel, Indiaid Gogledd America, a thrigolion Gogledd Sgandinafia, gan annog eglwysi i gefnogi ymdrechion cyfiawnder.
- **Cenhadaeth mewn argyfwng** – ail-ddiffinio cenhadaeth fel gwrthwynebiad dwyfol i orthrwm byd-eang mewn mannau fel Gaza, Myanmar, a'r Wcráin.
- **Heddwch yng Nghorea** – pwyslais ar gymod a hawliau dynol ar benrhyn Corea.
- **Prosiect Onesimus** – trafod etifeddiaeth caethwasiaeth a threfedigaethu, gan eiriol dros gyfiawnder atgyweirio a pherthnasoedd trawsnewidiol.

Yn ogystal, chwaraeodd Beti-Wyn ran amlwg yn Grŵp Cawcws y Menywod, a oedd yn trafod 'Ei llais ei hun, ein tyst ni.' Fan honno, pwysleisiwyd pwysigrwydd lleisiau menywod fel tystiolaeth ganolog yng nghanol argyfyngau byd-eang. Archwiliwyd pedair thema: cyfiawnder ecolegol ffeministaidd, profiadau menywod mewn rhyfel, addysg Gristnogol ffeministaidd, a thrawsnewid strwythurol mewn arweinyddiaeth eglwysig. Nod y grŵp oedd herio patriarchaeth a hyrwyddo arferion eglwysig cynhwysol.

**Hefin Jones**

*Bydd ail ran yr adroddiad hwn yn rhifyn nesaf y Tyst.*

# Argyfwng gwleidyddol Madagascar

*Yn yr erthygl gyntaf yr wythnos ddiwethaf, soniwyd fod cyfres o brotestiadau torfol wedi dechrau ym Madagascar ar 25 Medi, gyda phobl ifanc, y Gen-Z fel y'u gelwir, yn eu harwain.*

Tlodi, toriadau aml yn y cyflenwad trydan a phrinder dŵr oedd yr ysgogiad i fynd allan i'r strydoedd, a chyda pob diwrnod oedd yn pasio yr oedd y torfeydd yn cynyddu, a'r sefyllfa yn dod yn fwyfwy peryglus. Diflannodd yr Arlywydd, Mr Andry Rajoelina, ac uchel swyddogion y llywodraeth o olwg y cyhoedd ddydd Mawrth neu ddydd Mercher 7-8 Hydref, ac am wythnos gyfan nid oedd unrhyw sicrwydd ymhle yr oeddent er bod amryw sibrydion yn cylchredeg.




### Dryswch

Cyhoeddwyd ar y Sul, 12 Hydref, y byddai'r Arlywydd yn annerch y bobl ar y teledu nos Lun, ond cyn i hynny ddigwydd yr oedd carfan o'r fyddin wedi ochri gyda'r protestwyr ac wedi cyhoeddi mai hwy, bellach, oedd yn rheoli'r wlad. Pan ddaeth y nos Lun, cyhoeddodd cefnogwyr yr Arlywydd fod y fyddin wedi bygwth meddiannu pencadlys Teledu Madagascar, ac felly nad oedd yr Arlywydd yn gallu annerch y bobl fel yr oedd wedi bwriadu. Fodd bynnag, wedi i'r darllediad gael ei ohirio ddwywaith, aeth yn ei flaen, ac ynddo cyhuddodd Andry Rajoelina y fyddin o geisio'i ladd, ond dywedodd ei fod yn awr mewn lle diogel, er na ddatgelodd ymhle yn union yr oedd y lle hwnnw. Esboniodd mai'r hyn oedd yn digwydd oedd bod y fyddin yn ceisio ei ddisodli a rheoli'r wlad, a bod y fath weithred yn gwbl anghyfreithlon.

### Ymrafaelion

Pan wawriodd dydd Mawrth, 14 Hydref, cafwyd fod y protestio yn parhau a bod Llys Cyfansoddiad y wlad wedi datgan bod yr hyn yr oedd y fyddin wedi ei wneud yn ddilys. Cyhoeddodd y Llys hefyd fod swyddi'r Arlywydd a Llywydd y Senedd yn awr yn wag gan fod eu deiliaid wedi ffoi. Wrth i'r diwrnod fynd heibio, gwelwyd mai milwyr, yn hytrach na'r heddlu, oedd bellach yn cadw trefn yn y trefi a'r dinasoedd wrth i'r strydoedd, yn enwedig yn y brifddinas, Antananarivo, lenwi â miloedd ar filoedd o brotestwyr.

Yr oedd yr Arlywydd wedi ceisio datrys yr argyfwng trwy gyhoeddi ar X (Twitter gynt) ei fod yn diddymu Senedd Madagascar, ond ymateb Siambr Isaf y Senedd oedd penderfynu uwch-gyhuddo'r Arlywydd am iddo fod yn esgeulus o'i ddyletswyddau a ffoi o'r wlad. Yn fuan wedi hynny, mewn ymdrech i atal unrhyw ddatblygiadau pellach rhag digwydd, cymerodd y fyddin y cam annisgwyl o wahardd Llys Cyfansoddiad Madagascar rhag gweithredu dros dro.

### Mwy o drefn

Mewn datganiad a wnaed ym Mhalas yr Arlywydd, yn ôl gwasanaeth newyddion France24, cadarnhaodd arweinydd y garfan o'r fyddin oedd wedi ochri â'r protestwyr, y Cyrnol Michael Randrianirina, fod y Cyfansoddiad wedi ei roi o'r neilltu am y tro, a'i fod ef a'i filwyr yn bwriadu sefydlu Cyngor Llywodraethol ac y byddai'r Cyngor hwnnw yn cynnwys cynrychiolaeth o'r fyddin, y *Gendarmerie* a'r Heddlu Cenedlaethol. Wedi'r cyhoeddiad, wrth i filwyr grwydro o amgylch y ddinas mewn cerbydau milwrol, bu'r torfeydd yn chwifio'u breichiau a churo dwylo i ddangos eu cefnogaeth iddynt.

FRANCE 24

### Arlywydd newydd

Ond ar ddydd Iau, 16 Hydref, daeth cyhoeddiad pellach, fod Prif Weinidog i'w apwyntio na fyddai'n dod o rengoedd y fyddin, ac y byddai etholiad i'w gynnal o fewn dwy flynedd. Yn y cyfamser, bydd y Cyngor Llywodraethol yn gwneud ei waith, a'r Cyrnol Michael Randrianirina yn cael ei urddo'n Arlywydd dros dro yn ystod cyfnod y trawsnewidiad. Digwyddodd yr urddo hwnnw ddydd Gwener, 17 Hydref. Newidiodd y Cyrnol ei lifrai milwrol am siwt ac urddwyd ef yn Arlywydd ac yn arweinydd ei bobl mewn seremoni fer.

Er hyn, ac er bod heddwch a threfn wedi dychwelyd i strydoedd y wlad, sefyllfa fregus hynod sydd ar hyn o bryd ym Madagascar, a bydd yn rhaid aros i weld pa ddatblygiadau ddaw nesaf yn y wlad hon sydd mor agos at ein calonnau ni fel Annibynwyr Cymraeg.

**Geraint Tudur**



*Madagascar yw un o'r gwledydd tlotaf yn y byd.*
*(Llun: Richard Outram/Undeb yr Annibynwyr)*

Yr Adran Gydenwadol

TACHWEDD 13 2025 RHIF 246

# Cannoedd yn llenwi Eglwys Gadeiriol Casnewydd ar gyfer gorseddu 15fed Archesgob Cymru

Cafodd Archesgob Cymru, y Parchedicaf Cherry Vann, ei gorseddu mewn gwasanaeth cenedlaethol yn Eglwys Gadeiriol Sant Gwynllyw, Casnewydd, ddydd Sadwrn, Tachwedd 8fed.

Roedd y seremoni yn dilyn ethol yr Archesgob gan Goleg Etholiadol yr Eglwys yng Nghymru ym mis Gorffennaf.

Yn wreiddiol o Swydd Gaerlŷr, ordeiniwyd Cherry Vann yn ddiacon yn 1989. Yn 1994, roedd ymhlith y menywod cyntaf i gael eu hordeinio'n offeiriaid yn Eglwys Loegr. Ar ôl gwasanaethu mewn amryw o rolau yn Esgobaeth Manceinion, gan gynnwys fel caplan i'r gymuned fyddar, bu'n Archddiacon Rochdale am 11 mlynedd cyn cael ei chysegru'n Esgob Mynwy yn 2020. Y mae hi'n parhau yn y swydd honno.

**Beth sy'n digwydd mewn gorseddiad?**

Yn y seremoni yn Eglwys Gadeiriol Sant Gwynllyw, cafodd Archesgob Cherry ei gorseddu yn y Gadair Archesgobol o flaen yr Allor Uchel. Bydd y Gadair yn aros yn Eglwys Gadeiriol Casnewydd drwy gydol ei chyfnod fel Archesgob.

Wrth gyrraedd, cafodd yr Archesgob ei chroesawu gan aelod ifanc o'r corws. Digwyddodd hyn wrth y fedyddfaen yn rhan hynaf yr eglwys gadeiriol, lle sefydlodd Gwynllyw ei eglwys yn y 5ed ganrif. Yn dilyn hyn, bu gweithred o edifeirwch dan arweiniad yr Archesgob, wrth iddi benlinio ger y Gadair.

Yn ddiweddarach yn y gwasanaeth, cafodd y llw swyddogol ei dyngu gan ddefnyddio Beibl Archesgobion Mynwy – a ddefnyddiwyd yn seremonïau gorseddu pob Esgob Mynwy blaenorol a ddaeth yn Archesgob Cymru: Edwin Morris, Derek Childs, Rowan Williams, ac yn awr Archesgob Cherry.

Yn dilyn y gorseddiad, a'r croeso gan y gynulleidfa o bob cwr o Gymru a thu hwnt, cymerodd yr Archesgob ei sedd ar yr orsedd archesgobol wrth i Gôr yr Eglwys Gadeiriol ganu 'The Call of Wisdom' gan Will Todd, a gyfansoddwyd ar gyfer Ei Diweddar Fawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail ac a ganwyd yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul ar gyfer ei gwasanaeth Jiwbilî Diemwnt.

Yna pregethodd Archesgob Cherry cyn arwain y gynulleidfa wrth iddyn nhw adrodd Credo Nicea, sydd eleni yn nodi ei phen-blwydd yn 1700 oed.

Cyflwynodd Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn, corff partneriaeth eglwysi Cymru, yr Archesgob i arweinwyr eglwysig a chrefyddol o bob cwr o Gymru,



tra cyflwynodd yr Esgob David Morris yr Archesgob i gynrychiolwyr o Eglwys Loegr, Eglwys Iwerddon, Eglwys Esgobol yr Alban, ac Archesgob Uppsala, sy'n cynrychioli Eglwysi Porvoo – cymdeithas ecwmenaidd Ewropeaidd o eglwysi Anglicanaidd ac Efengylaidd Lutheraidd, y mae'r Eglwys yng Nghymru yn aelod ohoni.

Daeth gweddïau ar ôl hynny, dan arweiniad disgyblion o Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Teilo yn Esgobaeth Llandaf ac Ysgol Penrhyn Dewi yn Esgobaeth Tyddewi.

Daeth y gwasanaeth i ben gyda Gweithred o Ymrwymiad i genhadaeth yr eglwys, a gorffennodd gydag aelod hŷn o'r côr yn gofyn i'r Archesgob a fyddai hi'n hyrwyddo lles ac undod yr Eglwys a bod yn Fugail Da i'w phobl ar ôl esiampl Crist.

Yna gorymdeithiodd yr Archesgob a'r clerigwyr allan o'r eglwys gadeiriol.

Arweiniwyd y gerddoriaeth ar gyfer y gwasanaeth gan y Cyfarwyddwr Cerdd, Tom Coxhead, a Chôr yr Eglwys Gadeiriol.

Roedd y gwasanaeth yn cynnwys y Kyrie yn y Gymraeg a gyfansoddwyd gan Paul Mealor, a ganwyd yng Nghoroni'r Brenin Siarl yn 2023. Fe'i canwyd gan y bas-bariton ifanc Owain Wyn Rowlands. Cymerodd y cyn-Delynores Frenhinol, Alis Huws, a chwaraeodd yn y Coroni hefyd, ran yn ogystal.

Arweiniodd Croes Cymru, croes orymdeithiol a roddwyd gan y Brenin fel rhodd i'r eglwysi yng Nghymru ar gyfer ei chanmlwyddiant, yr orymdaith i'r eglwys gadeiriol.

Dywedodd y Tra Pharchedig Ian Black, Deon Eglwys Gadeiriol Casnewydd: "Mae'n bleser gallu croesawu pawb i'r Gadeirlan ar gyfer yr eiliad arbennig hon ym mywyd yr Eglwys yng Nghymru. Mae hyn yn nodi dechrau newydd, wrth i ni weddïo y gallwn, gyda'n gilydd, geisio bod yn gludwyr goleuni a gobaith yn ein cenedl."

Cafodd y gwasanaeth ei ffrydio'n fyw ar gyfryngau cymdeithasol ac ar wefan yr Eglwys yng Nghymru i alluogi cyfranogiad ehangach.

Cynhaliwyd gorseddiad cyntaf Archesgob Cymru ar 1 Mehefin 1920 yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Roedd hyn yn dilyn Datgysylltiad yr Eglwys yng Nghymru, pan ddaeth yn annibynnol ar Eglwys Loegr. Gallwch wylio'r gwasanaeth yma: Enthronement of the First Archbishop of Wales June 1st 1920.

Archesgob Cherry yw'r fenyw gyntaf i wasanaethu fel Archesgob Cymru, sydd yn gwneud y gorseddiad hwn yn achlysur gwirioneddol arwyddocaol a hanesyddol.

Wrth gael ei hethol gyntaf fel Archesgob, dywedodd: "Y peth cyntaf y bydd angen i mi ei wneud yw sicrhau bod y materion a godwyd yn ystod y chwe mis diwethaf yn cael eu trafod yn iawn a'm bod yn gweithio i ddod ag iachâd a chymod, ac adeiladu lefel dda iawn o ymddiriedaeth ar draws yr Eglwys a'r cymunedau y mae'r Eglwys yn eu gwasanaethu."


Dywedodd Esgob Llanelwy, y Gwir Barchedig Gregory Cameron: "Rwy'n hynod falch o groesawu Cherry fel 15fed Archesgob Cymru. Yn ystod ei chyfnod fel Esgob Mynwy, daeth ag iachâd mewn cyfnod o angen, a gweledigaeth o'r Eglwys fel cymuned wedi'i hadnewyddu gan Grist y gellir ei chymhwyso a'i hehangu ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru gyfan."

(O wefan yr Eglwys yng Nghymru: https://www.churchinwales.org.uk/cy/news-and-events/)

# Gweddi dros ardal Powys



Wrth yrru'r wyth deg milltir neu fwy ar hyd yr A470 o Ferthyr Tudful i Ddinas Mawddwy rydych wedi gweld cynrychiolaeth dda o Bowys. Er mai dim ond trwy gyfran fach o ddwy fil milltir sgwâr y sir y byddwch chi wedi teithio, mae bron pob agwedd ar ei chymeriad unigryw i'w gweld ar y daith honno.



Mae'r A470 yn dod allan o gefn gwlad y cymoedd diwydiannol gynt yn y de i'r hyn a elwir weithiau'n 'anialwch gwyrdd' y gogledd; mae'n ymdroelli o'r gororau yn y dwyrain i'r Fro Gymraeg i'r gorllewin. Byddwch yn gyrru trwy (ac yn osgoi!) rhai o brif drefi Powys.

A byddwch yn troelli trwy nifer dirifedi o bentrefi a phentrefannau llai a'u tafarndai, eu hysgolion a'u capeli … mae llawer bellach yn ymddangos fel pe baent yn perthyn i dudalennau llyfr hanes. Byddwch hefyd yn cael eich taro gan fawredd anhygoel ac anghysbell yr ehangder tir (prin ei boblogaeth) hwn yng nghanol Cymru. Dyna a welwch chi, ond beth mae Duw yn ei weld … a beth allai fod yn ei wneud yn y lle hwn?

Mae'r nefoedd yn dal i ddatgan gogoniant Duw. Ychydig yn unig o'r rhai sy'n byw yma sydd wedi methu ei glywed yn sibrwd ar ryw adeg trwy ei greadigaeth. Mae rhai, ar hyn o bryd, yn anwybyddu neu'n camddehongli'r sibrwd hwn, Ond yn eraill mae'n sbarduno dyhead i glywed mwy.

Mewn gwahanol rannau o'r sir, mae Cristnogion yn ailddarganfod sut i ddefnyddio'r trysorau gweledol anhygoel hyn o'n tirwedd syfrdanol i gyfeirio pobl at Dduw'r greadigaeth sydd wedi datgelu ei hun yn llawn yn Iesu.

Wrth i chi basio nifer o gapeli ac eglwysi gwag sy'n llenwi priffyrdd a ffyrdd cefn Powys, mae'n hawdd anghofio mai'r sir yma oedd man geni'r deffroad efengylaidd mawr yng Nghymru'r ail ganrif ar bymtheg. Gellir maddau i ni hefyd am anghofio natur radical symudiad Ysbryd Duw ar y pryd. O bregethu'r efengyl y tu allan i adeiladau'r eglwys i ddisgyblu credinwyr y tu mewn i gartrefi pobl, mae gwersi i'w dysgu. Ac mae pobl Duw sy'n byw yma heddiw yn parhau i ddysgu! Mae rhai cymunedau bywiog o Gristnogion yn parhau i addoli ac yn tystio i Iesu yn eu hadeiladau, a'r rhain yn aml wedi'u lleoli yn nhrefi mwya'r sir.

Ond hefyd, mae cydnabyddiaeth bod Duw hefyd yn symud ei bobl tuag at rannu'r Newyddion Da mewn ffordd fwy lleol, perthynol a phersonol. Mae cymunedau o Gristnogion yn cael eu plannu mewn ffyrdd newydd ac mewn lleoedd newydd. Yn ogystal, mae Duw yn anfon pobl i arloesi ei waith yn gyd-destunol ymhlith grwpiau penodol o bobl. Yn araf, yn aml yn dawel, mae Duw yn gwneud pethau newydd yma ym Mhowys.

Ac eto mae'r heriau'n parhau'n aruthrol. Mae Powys yn sir sy'n wynebu dyfodol ansicr iawn i'w heconomi wledig yn bennaf. O ganlyniad, mae Powys yn wynebu'r mudo ieuenctid uchaf yn unrhyw le yng Nghymru. Mae anghenion poblogaeth sy'n heneiddio yn aml yn cael eu rhwystro gan gyfyngiadau sector gofal sydd dan bwysau cynyddol. Mae ffermwyr gweithgar yn parhau i geisio llywio'u ffordd trwy faterion cyfoes cymhleth a newidiol.

Os yw'r A470 yn cynnig microcosm o Bowys i'r teithiwr craff, awgrymaf ei bod hefyd yn cynnig trosiad trawiadol. Nid yw'r daith ar hyd yr A470 byth yn gyflym, ac anaml y mae'n cynrychioli'r pellter byrraf rhwng dau bwynt; felly y mae'n ymddangos i gynifer sy'n ceisio gwasanaethu Duw yn y sir heddiw. Eto, i'r rhai sydd â llygaid i weld, boed yn un o'r nifer o ffermydd anghysbell sydd prin yn weladwy neu'r gwahanol drefi a phentrefi ar y ffordd, mae yna bobl y mae Duw yn eu gweld, ac yn eu caru; y mae wedi marw drostynt.

Ymunwch â ni i weddïo dros Bowys – y bydd llawer yn dod i adnabod goleuni'r efengyl drostynt eu hunain.

*Paul Smethurst*

(Allan o Fwletin Mis Tachwedd y mudiad plannu eglwysi 100 i Gymru. I dderbyn y bwletin ac ystyried ei gefnogi, gallwch fynd i'w gwefan: www.100.cymru)

*Mae Paul Smetherst a'i wraig, Robyn, wedi symud i Dalgarth lle mae'n dal y cyfrifoldeb o fod yn Weinidog Cenhadol gydag Undeb y Bedyddwyr ym Mrycheiniog.*





Mae tocynnau'r digwyddiad yma eisoes ar werth – prisiau gostyngol am gyfnod byr! Ymunwch â ni ym mis Chwefror am ddiwrnod arbennig!

Manylion Diwrnod Dros Gymru

## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 5 – Ymson Jochebed

Rwy'n fam i dri phlentyn, er y bu rhaid imi adael i un fynd er mwyn achub ei fywyd.

Pan ddaeth cyfraith y dyn dwl i rym, disgynnodd cysgod dros gartrefi'r ardal. Clywyd sgrechiadau'r babanod ac udo'r mamau fel llafnau dur yn torri'r awyr. Clywais lais oddi mewn imi'n dweud y byddai fy maban i'n cael ei arbed. Ond, roedd angen dogn dda o ymddiriedaeth yn y llais hwnnw.

Pan ddaeth yr amser, daeth y fydwraig ataf yng nghysgodion y nos, a'r ofn yn fflachio yng nghannwyll ei llygaid. Ganwyd fy mab, ac o'r eiliad cyntaf gwelais hud heddwch Duw yn ei wedd. Teimlais ym mêr fy esgyrn fod yr Arglwydd yn adnabod y bychan ac yn ei ddewis. Roedd hwn yn perthyn i Dduw.

Am dri mis, neidiwn wrth glywed unrhyw sŵn anghyfarwydd, yn enwedig sŵn traed milwyr yn agosáu. Byddai Miriam yn sefyll ger y drws yn gwylio, ac Aaron oedd yr un i fentro allan i ymofyn bwyd imi ei goginio. Bob nos, sibrydwn yr addewid i glustiau'r un bach: y byddai Duw'n gwarchod drosom.

Ond er inni geisio ein gorau i'w guddio, roedd llechu yn y dirgel yn anodd. Roedd fy mab yn tyfu a'i chwerthin yn gryfach. Fedrwn i mo'i dawelu a daeth yn amlwg bod yn rhaid imi ystyried y peth anoddaf posib. Rhwygai'r boen yn fy mron fel mellten gas. Roedd yn rhaid cael cynllun a daeth syniad i'm meddwl; treuliais oriau'n creu basged o frwyn. Yna, es â'm hanwylyn bach draw at yr afon a'i osod ar y dŵr. Siarsiais Miriam i aros nid nepell oddi wrtho i wylio. Anodd oedd cerdded oddi yno, a'm calon yn gorlifo o gariad ac ofn.

Drannoeth, daeth merch Pharo, Bitheia, i ymdrochi. Gwelodd y fasged frwyn a dagrau'r baban yn disgleirio ar ei fochau iach – y baban tlysaf a welsai erioed. Synhwyrodd hithau fod rhywbeth arbennig am y baban a dewisodd fynd ag ef gyda hi i'r palas. Ond roedd hi'n ferch i Pharo, a gwyddai na ddylai ddweud wrth ei thad. Roedd dewis ei gadw'n beryglus. Ynghanol ei meddyliau, doedd hi ddim wedi sylwi ar y ferch ifanc yn dod tuag ati.

Wedi dychwelyd, ces yr hanes gan Miriam, a dywedodd y gallwn i fynd i fagu'r baban. Do'n i ddim yn gwybod beth i'w feddwl: byddai rhaid imi esgus am weddill fy mywyd, ond eto fe allwn weld fy mab a bod yn agos ato. Os mai dyma gynllun Duw, penderfynais gydymffurfio a derbyn fy lle yng nghymhlethdod tapestri'r stori.

Wrth ei fagu, dysgais iddo holl hanesion ein pobl. Dywedais wrtho ein bod yn ddieithriaid yn y wlad, ond nad oedd Duw wedi ein hanghofio. Ro'n i'n benderfynol y byddai'n gwybod i bwy y perthynai. Siaradais am Dduw ac am ei addewid a'i gysur.

Aeth y blynyddoedd heibio, ond gwyddwn bob amser nad oeddwn wedi'i golli mewn gwirionedd. Rhoddais Moses i'r un Crëwr ag a greodd ddŵr yr afon a'r cefnfor. Ac rwy'n falch ohono, mor falch. Tyfodd i fod yn ddewr ac yn arweinydd cenedl. Ef oedd yr un i arwain y bobl drwy'r gagendor yn y môr, a deallais fy mod innau wedi gwneud rhywbeth mawr. Creodd fy Nuw fwlch rhyngof fi a fo, ond drwy hynny digwyddodd rhywbeth mwy, rhywbeth arbennig iawn. A dyma beth a ddysgais: wrth roi'r hyn yr ydym yn ei garu yn nwylo Duw, fe fydd Ef yn rhoi yn ôl inni'n lluosog drwy ei ras.

**Holi**

- Pa neges sydd inni yn newrder Jochebed yn sefyll yn gadarn yn wyneb cyfraith ei dydd?
- Ydych chi, neu rywrai wyddoch chi amdanynt, wedi gorfod wynebu sefyllfa oedd yn rhy gymhleth i'w rheoli? Pa agwedd fu o gymorth yn y sefyllfa honno?
- Oes 'afonydd' modern yr ydym yn gorfod rhoi eraill ynddynt ac ymddiried y bydd Duw'n bresennol drwy'r profiad? Oes mantais o lynu wrth obaith herfeiddiol?
- Sut allwn ni ddangos empathi heddiw fel y gwnaeth merch Pharo? Pa wersi sydd inni yma wrth ymrafael ag annhegwch, erledigaeth, a thrais yn ein cymdeithas?
- Oes 'tymhorau' o roi a dychwelyd yn digwydd mewn perthynas ymysg teuluoedd neu gyfeillion, neu eglwysi hyd yn oed?

**Gweddi**

Aros gyda ni ym mhob penderfyniad a wnawn. Gwna inni sylweddoli bod doethineb weithiau'n golygu gwneud penderfyniadau anodd. Aros gyda ni wrth inni orfod wynebu canlyniadau ein gweithredoedd. Gwna ni'n wylaidd wrth dderbyn na allwn reoli popeth. Aros gyda ni yn ein profiadau braf a heriol. Gwna ni'n ddiolchgar ym mhob peth. Aros gyda ni, a gwna ni'n blant i Ti. Amen.

**S4C**

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 16 Tachwedd, am 7:30yh – Stafell Fyw**
Bydd Rhodri Gomer yng Nghaerdydd i ddysgu mwy am elusen sy'n taclo dibyniaeth, ymddygiad niweidiol a phoen emosiynol. Ymhlith y cyfranwyr mae Wynford Ellis Owen a'r Parch. Rhys Locke o'r Creunant, ger Castell-nedd. Cawn berfformiad gan Gôr Canna a mwynhau gwledd o emynau.

**BBC radio cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 16 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Gogledd Penfro – John S. Davies yn cyflwyno detholiad o emynau o'r gymanfa

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 16 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Kathryn Stowers, Casnewydd

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Cynadleddau paratoi Dydd Gweddi'r Byd

Fel y bydd llawer o ddarllenwyr yn gwybod, bob mis Mawrth cynhelir Dydd Gweddi'r Byd (gynt Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd) a phob blwyddyn mae gwlad wahanol yn gyfrifol am lunio'r gwasanaeth. Lluniwyd gwasanaeth 2025 gan ferched Ynysoedd Cook yn y Môr Tawel a gwasanaeth 2026 gan ferched Nigeria. Ym mis Tachwedd cynhelir dwy gynhadledd i'n paratoi – un yng Ngogledd Cymru a'r llall yn Ne Cymru – ac mae croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb i fynychu. Fel arfer, rydym yn dilyn y gwasanaeth, cael blas ar yr astudiaeth Feiblaidd ac yn cael cyfle i weld adnoddau eraill.

Mewn sawl ardal mae eglwysi yn ymuno i drefnu'r gwasanaeth ym mis Mawrth tra bod eraill yn defnyddio'r gwasanaeth ar ddydd Sul fel y gall y gynulleidfa gyfan gymryd rhan. Os nad yw eich eglwys erioed wedi cymryd rhan ac yr hoffech wybod mwy, cysylltwch ag un o'r swyddogion a restrir isod.


Os ydych yn bwriadu mynychu un o'r cynadleddau paratoi ac yn gallu casglu llyfrynnau'r gwasanaeth ar gyfer eich gwasanaeth ym mis Mawrth, plîs rhowch wybod i Margaret, bydd hyn yn helpu i ni gadw costau postio i lawr.

Edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Tachwedd. Dyma fanylion y cynadleddau:

Y Gogledd: Capel y Fron, Dinbych 20 Tachwedd 10yb. Trefnydd Dilys Davies

Y De: Capel Bryngwenith, Henllan, Castell Newydd Emlyn 12 Tachwedd 11 yb. Trefnydd Parch Carys Ann.

Margaret Morgan:
margaretmaudmorgan@gmail.com
Eirian Roberts:
eirian.roberts@ebcpcw.cymru
Sarah Morris:
sarah.morris@ebcpcw.cymru








# Cyfundeb Maldwyn

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gwrdd chwarter Cyfundeb Maldwyn ym Methania Pen-y-bont Fawr ar noson olaf mis Medi. Mawr ddiolch i'r Parchg Carwyn Siddall am ei sgwrs ddifyr parthed ei waith fel swyddog gydag Undeb Yr Annibynwyr Cymraeg. Diolch hefyd i aelodau Bethania am y lluniaeth ar y diwedd.

**Euron Hughes**



*Y Parchg Carwyn Siddall ynghyd â'r swyddogion y Parchg Gwyndaf Richards a Mr Gwyndaf James.*



# Barn Annibynnol

## Calan Gaeaf

Mae 'wythnos dato', neu'n fwy cyfoes 'wythnos hanner tymor' wedi dod i ben! 'Wythnos dato' oedd hi pan oeddwn i'n grwt yng Ngheredigion. Wythnos i ni'r plant gael ei threulio'n casglu tato mewn bwcedi a'u harllwys i mewn i'r sache ar ffermydd ardal Llwyn-y-groes. Wythnos o waith caled a neb yn sôn am fynd i unman, dim hyd yn oed i Aberystwyth neu Lambed! Pawb wrth ei waith yn casglu ac yn cynaeafu ar gyfer y gaeaf a oedd wrth y drws. Mi roedd yn waith caled, ond roedd pawb yn mwynhau'r dasg, y cwmni a'r sbri.

Dyma oedd adeg y 'ffeiriau cyflogi' neu 'hierling fairs', pryd y byddai gweision a morwynion ffermydd yn bargeinio telerau gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod, naill gyda'r cyflogwr presennol, neu gyda chyflogwr newydd. Gŵyl draddodiadol Gymreig yw hon sy'n nodi dechrau gaeaf a diwedd y cyfnod tyfiant a arweiniodd at y cynhaeaf. Gŵyl sydd o bosib yn seiliedig ar yr hen wŷl Geltaidd, *Damhain,* a ddethlir ar y 1af o Dachwedd.




*Poster Ffair gyflogi*

### Hen ŵyl

Os edrychwch ar y calendr eglwysig, mi sylwch mai dyma adeg Gŵyl yr Holl Saint hefyd, sef gŵyl Gristnogol i gofio a diolch i Dduw am fywydau pobol dda a dylanwadol y ffydd Gristnogol – yr enwog a'r anhysbys – sydd wedi huno. Ie, gŵyl Gristnogol. Noson calan gaeaf yw noson yr ysbrydion, cyfnod pan yr honnir bod y llen rhwng y byw a'r meirw'n denau. Credir bod yr ysbrydion a'r meirw yn crwydro'r ddaear unwaith eto. Dyna'r rheswm dros gynnau coelcerthi er mwyn cadw ysbrydion drwg i ffwrdd, ac nid yn unig i gofio Guto Ffowc! Eraill wedyn yn gwisgo lan mewn dillad rhyfedd er mwyn drysu'r ysbrydion. Yn yr hen amser, mi fydde plant yn mynd o dŷ i dŷ i ofyn am fwyd a diod, fel y mae plant ein cyfnod ni yn gofyn am 'trick or treat'.

### Gwariant brawychus

Ble mae nos Calan Gaeaf bellach yn ein profiadau ni? Gwelir tai wedi eu gwisgo gan we corryn ffug, sgerbydau hyll, goleuadau rhyfedd, pwmpenni wedi eu cerfio a'u goleuo, a gall yr holl beth godi braw ar oedolion heb sôn am blant. Pam y pwyslais ar ofn ac arswyd dwedwch? Mae'r ŵyl hon wedi troi'n un seciwlar ac yn fusnes enfawr. Dywedir bod masnach a gwariant yn flynyddol ar nwyddau Calan Gaeaf bellach ond yn ail i wariant yn ystod cyfnod y Nadolig! Amcangyfrifir eleni y bydd teuluoedd y Deyrnas Unedig wedi gwario dros £86 miliwn ar losin ar gyfer 'trick or treat,' dros £1.4 miliwn ar bwmpenni a bod y gwariant ar wisgoedd, canhwyllau, ac addurniadau gŵyl nos Calan Gaeaf dros £2 biliwn gyda 91% o bobol yn dweud eu bod wedi prynu o leiaf un eitem ar gyfer yr ŵyl dywyll hon.

Dylanwad yr Unol Daleithiau yw'r elfen fasnachol a seciwlar hon a does ganddi ddim gronyn o berthnasedd i'r ffydd Gristnogol bellach. Honna'r Americanwyr mai mewnfudwyr o'r Alban a'r Iwerddon a gludodd y traddodiad i'r UDA. Pwy bynnag neu beth bynnag sydd yn gyfrifol am dwf yr ŵyl, dengys bod pobol yn chwilio am rywbeth i roi ystyr i fywyd, ac mae'r chwilio hwnnw ar gynnydd.

### Ysbrydoledd amgen

Sôn am 'chwilio', buom yn ddiweddar yn Nyfnaint a Chernyw a chawsom ein rhyfeddu gan y ddarpariaeth ar gyfer defodau 'alternative' mewn llefydd fel Totness a Tintagel. Sylweddoli wrth wrando ar y siarad mewn ambell i sefyllfa, bod diddordeb mewn hud a dewiniaeth a'r gred fod yna bŵer hudolus mewn cerrig, crisial, coed a hyd yn oed rhaeadrau dŵr.

Bu i ni ymweld â rhaeadr Sant Nectan ger Tintagel, sy'n 60 troedfedd o uchder ac wrth sgwrsio ag ambell ymwelydd, roeddent yn cyfeirio at yr ymdeimlad fod y fan yn le 'hudolus'. Gwelwyd rhubanau lliwgar wedi eu clymu ar ganghennau'r coed a chodwyd pentyrrau o gerrig fel gweithred addolgar. Rhaid cyfadde i mi gael fy ngadael yn hollol oer gan y lle, heb unrhyw deimlad o ryfeddod ac eithrio'r rhyfeddod o'r hyn yr oedd byd



*Rhaeadr Nectan Sant*

natur drwy rym dŵr wedi ei naddu o'r graig dros y canrifoedd. Na, doedd dim byd 'ysbrydol' fan honno i mi.



*Capel Piran Sant*

### Piran Sant

Y pen arall i'r cwm daethom ar draws capel Piran Sant, un o seintie pwysica Cernyw. Mae chwedl mai Cymro o Sir Forgannwg oedd Piran, ond y tebygrwydd yw mai Gwyddel ydoedd. Roedd yr adeilad yn llwm yr olwg o'r tu allan ond i mewn a ni ac yn y fan hyn y bu i ni brofi'r 'ysbrydol'. Yr ymdeimlad ein bod yn eistedd ble yr eisteddodd cenedlaethau o'n blaen yn myfyfyrio ar y dwyfoldeb hwnnw sy'n tanio a chynnal person. Y math o deimlad ysbrydoledig a geir wrth eistedd yn nhawelwch rhai o'n capeli hynafol, megis Capel Panteg ger Caerfyrddin, neu Maesyronnen ger Clas ar Wy ym Mhowys.

Bu i ni gyfarfod â lleygwraig groesawgar yn eglwys Piran Sant, a oedd yn trafod ffydd gyda dau grwydryn dros 'baned o goffi a biscïen' ger yr allor: modd arall o 'dorri bara' yng nghwmni'r Iesu! Bu iddi estyn gwahoddiad i ni'n dau ymuno. I ni, doedd dim cymhariaeth rhwng yr ymdeimlad wrth y rhaeadr a'r naws yn y Capel plaen, diaddurn hwn. Diolch i Piran Sant am ddyfnhau profiadau ysbrydol dau grwydryn arall y diwrnod hwnnw.

Mae bywyd yn medru bod yn gymhleth i nifer o bobol, oherwydd yr amrywiaeth o safbwyntiau, defodau a syniadau, y tywyllwch, y dieithrwch, y diffeithwch a'r difaterwch; agweddau a all ddenu ein bryd ar adegau. Sut bynnag y bu i ni ddathlu Calan Gaeaf eleni, bydded i ni barhau i gyhoeddi'r gwahaniaeth rhwng hud ac ysbrydolrwydd; rhwng y gau a'r gwir; afiach ac iach a rhwng y tywyllwch a goleuni; anobaith a gobaith.

W T Pennar Davies piau'r geiriau i gloi (Emyn 123)

> Glendid maith y cread, syndod ei ddieithrwch,
> gwyrth ein daear fechan, rhyfeddod bod a byw,
> diolch am gael profi yn y dwys ddirgelwch
> ras a gogoniant yr anhraethol Dduw.

**Tom Evans**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Trefeca a chapel y Plough
# Pererindod Ebeneser Caerdydd

Pererindota i un o leoliadau tawelaf Cymru, sy'n gysylltiedig â Christnogaeth a wnaeth rhai o aelodau Ebeneser ar ddydd Sul, 14 Medi. Gadael yr Eglwys Newydd yn gynnar a theithio drwy niwl a glaw draw i Goleg Trefeca, gan gyrraedd i groeso cynnes a phaned a danteithion cartref cyn ymneilltuo am oedfa. Gan i'r capel gwreiddiol gael ei dynnu i lawr rai blynyddoedd yn ôl, neuadd amlbwrpas a chyffyrddus o fewn y coleg a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd bellach.



## Ymlonyddwch

Testun oedfa a luniwyd gan Alun oedd ymdawelu ym mhresenoldeb Duw. Priodol felly oedd canu, 'Distewch, cans mae presenoldeb Crist' a chyd-ddarllen Salm 46. Seiliodd Alun ei fyfyrdod ar ddwy adnod o'r Salm sy'n ein hannog i ymdawelu ac i wybod bod Duw gyda ni ac yn gaer i ni. Bendith arall oedd gweddi Thomas à Kempis sy'n ein hatgoffa mai presenoldeb yr Arglwydd sy'n ein bodloni a'n llawenhau fel y gallom orfoleddu ynddo.

## Rhychwantu'r hanes

Wedi'r oedfa traddodwyd hanes Trefeca yn ddifyr gan y warden presennol, y Parchg Wayne Adams. Y disgwyliad oedd sgwrs am Howell Harris a chychwyniadau'r Coleg Diwinyddol. Ond aeth Wayne â ni'n ôl i'r chweched ganrif gan sôn am Santes Eluned, un o ferched Brychan Brycheiniog, a'i ffynnon nepell o'r coleg. Er ein bod yn gyfarwydd â dweud Coleg Trefeca, rhaid nodi na fu'r sefydliad yn Goleg Diwinyddol er 1964. Erbyn heddiw mae dyfodol y Coleg, sy'n eiddo Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn ansicr. Ond fel y nododd Wayne, gan na fyddai'r Eglwys Gatholig byth yn gwerthu'r Fatican, anodd iawn yw dychmygu'r Presbyteriaid yn ildio eu gafael ar Drefeca oherwydd ei gysylltiadau â hanes Cristnogaeth yng Nghymru.

## Tangnefedd

Cafwyd cyfle i grwydro'r gerddi, a'r ffynnon a hen gartref Howell Harris a'r wardeniaid a wasanaethodd yno ers y saithdegau. Cyfle i gofio am y Parchg Gwilym Ceiriog Evans a Gethin Rhys ifanc, a hefyd Mair Jones. Ond trist yw cyflwr presennol y tŷ. Yn ystod yr ychydig oriau y buom yn Nhrefeca soniodd sawl un sut yr oedd yr awyrgylch gwledig yn gymorth i deimlo a phrofi tawelwch, llonyddwch a thangnefedd yn y galon.

## Capel y Plough

Wedi cinio ymlaen i gapel y Plough yn Aberhonddu a chroeso twymgalon gan yr aelodau. Yn ystod yr oedfa clywsom hanes y capel a synnwyd pawb gan brydferthwch y gwaith coed, y nenfwd trawiadol a'r organ bib. Diolch yn fawr i'r Parchg Jeff Williams am drefnu'r oedfa a chyfraniad teimladwy Elwyn Moseley, oedd yn aelod yno yn ei arddegau a'i dad, Luther Moseley, yn weinidog ar y capel am nifer o flynyddoedd. Yno hefyd y priodwyd Elwyn a'r diweddar Annick ar 20 Ebrill 1968.

Yna, wedi paned a danteithion pellach, troi am adre' a wnaeth y pererinion modern ym moethusrwydd bws mini a cheir.

**Eirian a Gwilym Dafydd**

